Annwyl Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol,

Does dim dwywaith bod addysg yn allweddol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.
Fe bwysleision ni, yn ein hymateb gwreiddiol, bwysigrwydd y system addysg i strategaeth iaith y Llywodraeth o greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050 a chreu mwy o siaradwyr yn gyffredinol.

Ymysg pobl ifanc mae'r gostyngiad mwyaf yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn genedlaethol, yn ôl Cyfrifiad 2021, felly mae'n amlwg bod mwy byth o waith i'w wneud.
Mae'n achos pryder mawr bod ffigyrau'r Cyfrifiad yn dangos hefyd i ganran y plant sy'n derbyn addysg Gymraeg wedi gostwng rhwng y ddau Gyfrifiad. Bu trefn y CSGA'au yn weithredol drwy gydol y cyfnod hynny, sydd yn brawf pellach nad ydyn nhw'n effeithiol.
Hoffem ategu ein sylwadau felly bod angen disodli'r CSGA'au â fframwaith statudol cenedlaethol fesul awdurdod lleol sydd yn gosod targedau a chynllun gweithredu i gyrraedd hynny.

Ers cyflwyno'n hymateb i ymchwiliad i'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg cyhoeddon ni Ddeddf Addysg Gymraeg y byddai'n bosibl i'r Llywodraeth ei gweithredu er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2050. Mae'r Ddeddf i'w gweld yma, ond mae tri phrif beth sydd angen eu cynnwys yn Deddf Addysg arfaethedig:

**1. Nod statudol fod pob ysgol ar daith at fod yn un cyfrwng Cymraeg dros y 27 mlynedd nesaf.**
Dengys tystiolaeth ryngwladol mai addysg cyfrwng sy'n arwain at greu siaradwyr rhugl. Nid newid dros nos fyddai hyn, ond proses o gynllunio'n fwriadus er mwyn symud y gweithle a'n hysgolion ar daith dros amser.

**2. Un continwwm dysgu ac asesu Cymraeg.**
Ar hyn o bryd, mae bwlch sylweddol rhwng cyrhaeddiad y rhai sy'n astudio Cymraeg ail iaith a'r rhai sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf. Ym mis Medi 2013, comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil i addysg ail iaith, a gyflawnwyd gan grŵp annibynnol dan gadeiryddiaeth yr Athro Sioned Davies. Un o argymhellion allweddol adroddiad yr ymchwili oedd disodli Cymraeg ail iaith gydag un continwwm dysgu ac asesu'r Gymraeg.

Er i'r Llywodraeth gytuno i ddileu Cymraeg ail-iaith a symud i greu un continwwm iaith mae wedi gweithredu'n groes i hyn drwy ganiatáu cwricwlwm Cymraeg gwahanol i ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg. Mae Cymwysterau Cymru hefyd wedi cyflwyno cynigion ar gyfer dau gymhwyster TGAU Cymraeg nad ydyn nhw'n gorgyffwrdd. Mae parhad trefniadaeth asesu sydd wedi methu ac yn amddifadu 80% o ddisgyblion Cymru o'r gallu i siarad Cymraeg yn hollol annerbyniol.

**3. Fframwaith cenedlaethol â thargedau i bob awdurdod lleol.**
Er bod pob Awdurdod lleol yn creu CSGA sydd i fod i nodi sut y bydd yn cynyddu darpariaeth Gymraeg, mewn rhai achosion mae targedau yn isel, a does dim goblygiadau os na chyrhaeddir y targedau.
Yn y ddeddf newydd, gall Llywodraeth Cymru greu fframwaith cenedlaethol sy'n gosod targedau ar bob awdurdod lleol i gyrraedd y nod.

Mae cyfle yn y Ddeddf Addysg Gymraeg i sicrhau bod pob plentyn yn derbyn addysg Gymraeg - ond mae angen cynllunio bwriadus ar gyfer hynny, trwy osod y nod statudol bod pob plentyn yn derbyn addysg Gymraeg mewn cyfnod penodol.

Grŵp Addysg Cymdeithas yr Iaith
Ionawr 2023